| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **ENW'R PWYLLGOR:** | **PWYLLGOR GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD** |
| **DYDDIAD Y CYFARFOD:** | **23 MAWRTH 2016** |
| **TEITL:** | **GWEITHGAREDDAU CYNEFINO AR GYFER AELODAU NEWYDD 2017** |
| **AWDUR:** | **PENNAETH GWASANAETH – GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD** |
| **PWRPAS YR ADRODDIAD:** | **YSTYRIED Y FFRAMWAITH DRAFFT A BARATOWYD GAN GYMDEITHAS LLYWODRAETH LEOL CYMRU** |

## 1.0 Cefndir

Mae CLlLC wedi paratoi fframwaith cychwynnol ar gyfer ymgynghoriad i gefnogi gweithgareddau cynefino ar gyfer Aelodau newydd yn dilyn yr etholiadau lleol yn 2017. Mae copi o'r fframwaith ynghlwm.

Bydd hwn yn cael ei ddatblygu ymhellach yn ystod yr ychydig fisoedd nesaf, gan gynnwys gweithgareddau i sicrhau deunyddiau a darparwyr lle nad ydynt eisoes ar gael. Bydd y gwaith hwn yn cael ei drafod hefyd rhwng CLlLC a Llywodraeth Cymru.

Daw Etholiadau 2017 â heriau newydd i Aelodau ac Awdurdodau Lleol. Yn draddodiadol, mae Awdurdodau Lleol a CLlLC wedi gweithio gyda'i gilydd i gynllunio a chefnogi gweithgareddau cynefino ar gyfer Aelodau newydd ond efallai y bydd angen gweithredu'n wahanol yn y dyfodol am y rhesymau a amlinellir yn y ddogfen sydd ynghlwm.

## 2.0 Argymhelliad

Gofynnir i'r Pwyllgor ystyried a chyflwyno sylwadau ar ddogfen ymgynghori CLlLC.

**Huw Jones**
**Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd**
**14/03/16**

**<u>Rhaglen gyflwyno ar gyfer cynghorwyr newydd yn 2017</u>**

**Mae'r cynghorau lleol a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (WLGA) wedi cydweithio dros y blynyddoedd i drefnu a chynnal gweithgareddau cyflwyno cynghorwyr newydd ar ôl etholiadau lleol. Daw anawsterau newydd yn sgîl etholiadau 2017 i gynghorwyr a chynghorau fel ei gilydd a gallai fod angen dull newydd. Ar ôl trafod y materion hyn gyda phenaethiaid a chadeiryddion gwasanaethau democrataidd mewn cyfarfodydd yn ddiweddar, rydyn ni'n cynnig y ddogfen hon ar gyfer ystyriaeth ehangach i gyfeirio cydweithio a helpu i rannu adnoddau. Bydd yn cyfeirio trafodaethau gyda Llywodraeth Cymru, hefyd.**

Dyma resymau dros lunio dull newydd sbon ar gyfer y cyflwyno yn 2017:

1. O ganlyniad i sefyllfa gyfnewidiol maes llywodraeth leol, mae'r disgwyliadau ar gynghorwyr wedi tyfu ac yn debygol o gynyddu. Bydd angen i gynghorwyr newydd a phrofiadol ddysgu am newidiadau yn y gyfraith megis Deddf Lles Cenedlaethau'r Dyfodol, Deddf Cynllunio a Deddf Llesiant a Gwasanaethau Cymdeithasol. Os daw i rym, bydd Mesur Llywodraeth Leol Cymru yn mynnu newidiadau sylfaenol yn rolau cynghorau a phwyllgorau y tu hwnt i ad-drefnu maes llywodraeth leol. Mae natur gwasanaethau'r cynghorau lleol a gwaith y cynghorwyr yn prysur newid i ddiwallu anghenion cymunedau hefyd, yn sgîl diwygio budd-daliadau, mewnfudo, twf y boblogaeth a nifer yr hen bobl sydd ynddi.

2. Gan fod llai o weithwyr ac arian, bydd llai o adnoddau lleol a gwladol i lunio rhaglenni cyflwyno ar gyfer cynghorwyr newydd a phrofiadol. Ar ben hynny, mae'n anochel y bydd llai o gyfleoedd i gynghorau lleol ddefnyddio darparwyr allanol ar gyfer datblygu'r cynghorwyr ac efallai na fydd gan eu swyddogion ddigon o amser i gynnal sesiynau, chwaith.

3. Mae rhagor o bosibiliadau o ran dysgu cynghorwyr trwy gyfryngau digidol am fod y cynghorwyr yn fwy medrus ym maes technoleg gwybodaeth bellach a'i bod yn debygol y bydd y rhai newydd yn gyfarwydd â dysgu a chyfathrebu ar y we. Mae gwefan Academi Llywodraeth Leol Cymru Gyfan ar gael yn rhad ac am ddim i gynghorwyr ar gyfer dysgu electronig bellach.

4. Gallai Deddf Llywodraeth Leol Cymru adael i bob cyngor lleol benderfynu pa rannau o ddatblygiad cynghorydd ddylai fod yn orfodol. Mae rhai cynghorau wedi darparu ar gyfer hynny eisoes yn eu cyfansoddiadau. O ddod i gytundeb ar hynny, fe fyddai'n haws i'r cynghorau lleol gydweithio i'w hwyluso.

5. Gallai partneriaid eraill megis Academi Cymru (sy'n noddi Academi Arwain) ac Adran Dyfodol Tecach Llywodraeth Cymru (a roes hyfforddiant am faterion cydraddoldeb yn ddiweddar) fod ar gael i helpu i ddatblygu cynghorwyr.

   Mae'r rhwydwaith o'r farn y gallai WLGA a rhai partneriaid eraill symleiddio, lledaenu a chynnal proses y cyflwyno.

**Dyma sylwadau cynghorwyr am y cyflwyno blaenorol:**

- Nid y peth mwyaf defnyddiol i gynghorwyr bob amser yw cyflwyno gormod o wybodaeth dros gyfnod byr (neu dros y chwe mis cyntaf, hyd yn oed).
- Hoffai cynghorwyr rai gweithgareddau dysgu wyneb yn wyneb – gan gynnwys hysbysu pwyllgorau, holi ar gyfer craffu, medrau cadeirydd a thrin a thrafod y cyfryngau.
- Hoffai cynghorwyr gyfleoedd i ymweld â safleoedd cynghorau a chymunedau a chwrdd â swyddogion uchelradd a rheng flaen fel ei gilydd.
- Mae cyflwyniadau cyfarwyddwyr gwasanaethau yn rhy fanwl, heb eu rhoi ar yr adeg briodol, weithiau.
- Hoffai cynghorwyr wybodaeth am gysylltu â swyddogion perthnasol.
- Bydd y cyflwyno ar ei orau pan fo'n cael ei gydlynu ar ôl i un tîm benderfynu ar y cynnwys, yn hytrach na rhoi lle i amryw wasanaethau mewn rhaglen (arfer sy'n arwain at wybodaeth anghytbwys).
- Mae cynghorwyr yn mwynhau gweithgareddau cyflwyno rhanbarthol, gan y bydd cyfleoedd i glywed am ddulliau cynghorau lleol eraill.
- Nid pob cyngor lleol fanteisiodd ar y deunyddiau roedd WLGA wedi'u llunio.
- Gallai fod angen cymorth ar gabinet newydd i ddeall ei rôl, hefyd.
- Gallai cymorth personol swyddog/cynghorydd profiadol fod yn ddefnyddiol i gynghorydd newydd yn ystod y dyddiau cyntaf, hefyd.
- Mae mentora'n ddefnyddiol, ond yn anffurfiol y bydd yn digwydd yn aml. Mae angen hyfforddiant ar fentoriaid.
- Rhaid rhoi gwybod i ymgeiswyr am ddyddiadau cyrsiau cyflwyno cyn gynted ag y bo modd ar ôl derbyn rhybudd o'u bwriad i gymryd rhan yn yr etholiad.

**Rhai awgrymiadau ar gyfer y ffordd ymlaen:**

- Gallai fod yn ddefnyddiol pe bai 'cwrícwlwm' i'w ledaenu a chytuno arno yn fan cychwyn. Dylai hwnnw gyd-fynd â disgrifiadau o rolau a *Fframwaith Datblygu Cynghorwyr Cymru*. Bwysicaf oll, dylai'r cynghorwyr presennol gytuno y bydd o gymorth. Mae rhai syniadau yn y rhaglen gyflwyno enghreifftiol isod.

- Dylai fod cytundeb ar bob rhan o ddatblygiad cynghorwyr sy'n orfodol. Er bod Mesur Llywodraeth Leol Cymru yn awgrymu y byddai pob cyngor lleol yn cael penderfynu pa hyfforddiant ddylai fod yn orfodol i gynghorwyr, byddai modd cryfhau trefniadau a rhannu adnoddau pe bai cytundeb ar waith ledled y wlad. Mae Llywodraeth Cymru wedi dweud y byddai'n croesawu awgrymiadau gan y rhwydwaith ynglŷn â pha hyfforddiant ddylai fod yn orfodol. Er enghraifft:

  <u>Pob cynghorydd</u>
  - Côd ymddwyn a moeseg
  - Materion cyfansoddiadol megis rheolau parhaol ac ati
  - Egwyddorion sylfaenol cydraddoldeb
  - Diogelu
  - Deddf Rheoli Data a Deddf Mynnu Gwybodaeth

- Rhieni corfforaethol
- Materion ariannol megis pennu cyllideb a rheoli trysorlys

<u>Aelodau pwyllgorau penodol</u>

- Materion cynllunio i aelodau pwyllgorau cynllunio
- Materion safonau i aelodau pwyllgorau safonau
- Materion trwyddedu i aelodau pwyllgorau trwyddedu
- Materion archwilio i aelodau pwyllgorau archwilio
- Materion penodiadau i aelodau pwyllgorau penodi
- Materion craffu i aelodau pwyllgorau craffu

<u>Cadeiryddion</u>

- Medrau rheoli cyfarfodydd i gadeiryddion ac is-gadeiryddion
- Medrau llywio pwyllgor craffu i gadeiryddion ac is-gadeiryddion

- Gallai'r achlysuron cyflwyno a ddefnyddiodd rhai cynghorau lleol yn 2012 fod yn ffordd amgen na rhaglen gyflwyno ffurfiol ar y diwrnod cyntaf wrth y gwaith.

- Dylai fod ymdrech i alluogi cynghorwyr i ddysgu'n annibynnol gan roi gwybodaeth a medrau ar gael iddyn nhw yn ôl yr angen yn hytrach na thrwy gyfres o weithdai cyflwyno ffurfiol. Byddai rhaid mynychu'r sesiynau gorfodol a'r rhai y byddai'n well eu rhoi'n bersonol ond gallai popeth arall fod ar gael trwy ddysgu electronig (gan fonitro'r cyrsiau sydd wedi'u dilyn). Felly, fe fyddai'n bwysicach meithrin medrau technoleg gwybodaeth a rhoi gwefannau ar gael.

- Sesiynau rhanbarthol ar y cyd â phartneriaid megis WLGA a Llywodraeth Cymru.

- Trefniadau adolygu datblygiad personol cynghorwyr newydd ar ôl eu cyflwyno fel y bydd modd pennu a blaenoriaethu hyfforddiant parhaus.

**Enghraifft o raglen gyflwyno cyngor lleol**

**Diwrnod 1** (gorfodol)

- Llofnodi'r datganiad o'r swydd a'r côd ymddwyn
- Taith trwy swyddfeydd a chyfleusterau'r cyngor
- Rhoi i'r cynghorydd newydd becyn ac ynddo restr y cysylltiadau a llawlyfr (naill ai ar ffurf galed neu linc â phorthol y cynghorwyr)
- Croeso gan y prif weithredwr
- Cyflwyniad am waith y cyngor (crynodeb o'r llywodraethu corfforaethol, nid pob gwasanaeth)
- Esboniad o broses y cyflwyno

**Wythnos 1**

Hanfodion cyflwyno: 10.00–8.00. Diwrnod agored y caiff cynghorwyr alw heibio iddo heb ddisgwyl iddyn nhw fynd i sesiwn gorfodol am foeseg a safonau. Bydd bwyd ar gael rhwng 12.30 a 1.30 i annog pawb i gwrdd a siarad â' gilydd

| Ystafell 1 | Ystafell 2 | Ystafell 3 |
|---|---|---|
| **Marchnadfa**<br><br>Bydd gan bob gwasanaeth a menter o bwys stondin lle gall uwch swyddogion a staff gweithredol esbonio'r hyn maen nhw'n ei wneud a materion cyfredol. Bydd cynghorwyr yn ymweld â nhw drwy gydol y dydd a'r noswaith. | **Hyfforddiant gorfodol am foeseg, safonau ac ymddygiad** gan swyddog monitro'r cyngor.<br><br>Rhaid mynd i un sesiwn.<br><br>10.00–12.00<br><br>2.00–4.00<br><br>6.00–8.00 | **Cyflwyno offer TGCh.**<br><br>Staff TGCh y cyngor.<br><br>Sesiynau personol 40 munud yr un. Rhoi offer, cofrestru ar gyfer porthol, rhwydweithiau a dysgu electronig. Cymorth yn ôl yr angen. |

**Bydd hyfforddiant gorfodol i'r amryw bwyllgorau (yn ôl y rhestr uchod) yn ystod cyfarfod cyntaf pob pwyllgor.**

**Bydd dysgu electronig ar gael yn ôl yr angen o'r diwrnod cyntaf.** (Mae rhestr o fodiwlau Academi Cymru Gyfan i gynghorwyr a phobl eraill wedi'i lledaenu eisoes).

**Y chwe mis cyntaf – gweddill yr hyfforddiant gorfodol trwy gyfrwng gweithdai (yn ôl y rhestr uchod)**

**Yr ail chwe mis – gweddill y cyflwyno nad yw'n orfodol megis:**
- Arwain cymunedau a thrin a thrafod achosion
- Datblygu cabinet newydd, yn ôl y galw
- Gofynion eraill polisïau, gwasanaethau a deddfau i bob pwyllgor

**Ebrill 2018: Adolygu datblygiad personol i nodi anghenion ychwanegol.**

**Bydd WLGA yn cynnig deunyddiau ychwanegol** megis llawlyfr i'r ymgeiswyr (erbyn mis Ebrill 2016) trwy ei gwefan. Cewch chi ddangos i'r ymgeiswyr ble mae'r adnoddau hynny yn ogystal â'u haddasu ar gyfer eich gwefannau chi ac i'w hargraffu.

**Bydd llawlyfr newydd i gynghorwyr ar gael trwy'r un ffynhonnell erbyn mis Rhagfyr 2016.**

---

**Gwahoddir pwyllgorau gwasanaethau democrataidd, a'r amryw swyddogion ac aelodau sy'n gyfrifol am gynorthwyo a datblygu cynghorwyr, i gyflwyno sylwadau ar ran eu hawdurdodau.**

Ar ôl i bob awdurdod gael cyfle i ystyried pa mor addas yw'r dull, bydd y rhwydwaith ac WLGA yn gofalu bod yr adnoddau allweddol ar gael lle nad oes digon eisoe